

# RHESTR WIRIO GRYNO

**Ticiwch y camau gweithredu i olrhain eich cynnydd**

## TIMAU STAFF

- ○ Sefydlu tîm ac adolygu'r data ar gyfer bwyd a gaiff ei daflu.
- ○ Gwneud staff yn ymwybodol o fuddion lleihau faint o fwyd gaiff ei daflu, e.e. cynnal mis o weithredu 'Gwneud Safiad dros Fwyd'.
- ○ Gosod targedau a'u rhannu gyda staff.
- ○ Hyfforddi staff ar sut i atal taflu bwyd yn eu hardal waith.
- ○ Cadw staff yn hysbys ar eich cynnydd – defnyddio cyfarfodydd tîm, posteri, ac ati.
- ○ Annog staff i gyflwyno syniadau ar gyfer gwelliannau pellach.
- ○ Herio ymddygiad gwastraffus.
- ○ Atgyfnerthu arfer da a chydnabod cyfraniad unigolion.
- ○ Cyfleu eich llwyddiant i'ch cwsmeriaid.

## PRYNU AC ARCHEBU

- ○ Dylunio bwydlen ddoeth gan ddefnyddio llai o gynhwysion.
- ○ Cynnwys cynnyrch tymhorol pan fo'n bosibl.
- ○ Defnyddio eitemau craidd ar draws y fwydlen.
- ○ Adolygu eich bwydlen yn rheolaidd.
- ○ Cadw llygad allan am ddigwyddiadau yn eich ardal a gwirio'r tywydd yn rheolaidd.
- ○ Gwirio dyddiadau defnyddio erbyn a chylchdroi stoc.
- ○ Gweithio gyda chyflenwyr i drefnu danfoniadau 'jyst mewn pryd'.
- ○ Ystyried prynu dognau parod ar gyfer eitemau bwydlen.
- ○ Prynu mewn swp os yw hynny'n gweddu i'r galw neu os nad yw'r eitemau'n rhai darfodus.

wrap

GUARDIANS – OF GRUB –

## STORIO

- ◯ Labelu eitemau gyda dyddiadau prynu a defnyddio erbyn.
- ◯ Defnyddio cynnyrch yn nhrefn eu dyddiad defnyddio erbyn (hynaf yn gyntaf).
- ◯ Ystyried grwpio eitemau i gyd-fynd â rhestr prynu'r cyflenwr.
- ◯ Defnyddio taflen tracio stoc; cynnwys stoc wedi'i rewi.
- ◯ Ystyried pecynnau gwactod ar gyfer rhai eitemau i ymestyn eu hoes silff a/neu leihau aroglau.
- ◯ Ystyried defnyddio nwyddau wedi'u rhewi neu sychu, neu mewn poteli neu duniau yn hytrach na chynhwysion ffres pan fo'r ansawdd yn debyg.
- ◯ Storio cynnyrch llaeth, cig wedi'i goginio, cigoedd amrwd, pysgod, a ffrwythau a llysiau ar wahân yn yr oergell.
- ◯ Cadw detholiad o gynwysyddion aerglos ar gael i storio bwyd yn yr oergell; labelu'r cynnwys a nodi'r dyddiad arnynt.
- ◯ Adolygu'r cynllun silffoedd/storio'n aml i sicrhau ei fod yn ategu eich bwydlen.

## PARATOI

- ◯ Osgoi trimio gormod ar bysgod, cig a llysiau.
- ◯ Ystyried cynnig llysiau gyda'u crwyn arnynt.
- ◯ Rhewi unrhyw warged neu ei ddefnyddio drannoeth.
- ◯ Defnyddio'r trimins i wneud seigiau eraill.
- ◯ Gwneud briwsion bara neu friwsion crasu gyda bara dros ben.
- ◯ Rhewi aeron dros ben i wneud saws ffrwythau neu smwddis.
- ◯ Defnyddio clorian i fesur cynhwysion a dognau.
- ◯ Sicrhau bod pob saig yn cyrraedd safon uchel yn gyson.
- ◯ Sicrhau bod staff yn gyfarwydd â'r fwydlen gyfan a'i holl elfennau.
- ◯ Cyfrannu bwyd dros ben i sefydliadau ailddosbarthu.

## MAINT DOGN

- ◯ Cadw meintiau dognau'n gyson – defnyddio llwyau a mesurau safonol.
- ◯ Cynnig yr un eitem o'r fwydlen mewn dognau o wahanol feintiau.
- ◯ Cynnig dognau canolig o lysiau, gan roi rhagor os bydd eu heisiau.
- ◯ Cyflwyno eich bwyd yn greadigol i leihau'r swm a gaiff ei weini.
- ◯ Cynnig hepgor unrhyw gynhwysion pan fo'n bosibl, e.e. dim salad; salad heb winwns.
- ◯ Cyflwyno cynwysyddion tecawê fel 'bocsys cludo' ar gyfer bwyd dros ben.
- ◯ Monitro gwastraff plât gan ddefnyddio taflenni tracio.

**Mae rhagor o Tips Gwych ar gyfer defnyddio mwy o'ch bwyd ar gael ar wrap.org.uk a guardiansofgrub.com**

Datblygwyd deunyddiau Guardians of Grub yn wreiddiol gan WRAP dan Courtauld Commitment 2025 ar gyfer yr ymgyrch 'Bwyd yw eich Busnes; peidiwch â'i daflu/Your Business is Food; don't throw it away'. Hoffem ddiolch i Love Food Hate Waste New South Wales, a FoodSave London am eu caniatâd i atgynhyrchu rhai o'r deunyddiau.

Er ein bod wedi ceisio gwneud yn siŵr bod y wybodaeth hon yn gywir, ni fedrwn dderbyn atebolrwydd na chael ein dal yn gyfrifol yn gyfreithiol am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan neu sy'n deillio o'r wybodaeth hon os yw'n anghywir, yn anghyflawn neu'n gamarweiniol. Mae'r deunydd hwn yn destun hawlfraint. Cewch ei gopïo am ddim cyn belled â bod y deunydd yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid ichi nodi ffynhonnell y deunydd a chydnabod ein hawlfraint. Ni chewch ddefnyddio'r deunydd hwn i gefnogi nac i awgrymu ein bod ni wedi cefnogi cynnyrch neu wasanaeth masnachol. Am fanylion pellach gweler ein telerau ac amodau ar ein gwefan www.wrap.org.uk